Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol
Cultural Trust

# Amlinelliad o'r Swydd

## Teitl y Swydd:
Cynorthwy-ydd Caffi

## Sail:
Rhan Amser

## Cyflog:
Gradd 10

## Lleoliad:
Unrhyw Gaffi Awen

## Yn atebol i:
Rheolwr Bwyd a Diod

## Yn gyfrifol am:
Ddim yn berthnasol

## Eich Rôl:

Byddwch yn chwarae rhan hanfodol yn niwrnod ein cwsmeriaid, a'ch prif rôl fydd darparu diodydd o ansawdd a sicrhau y darperir gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol i'n cwsmeriaid bob amser.

Byddwch yn arwain drwy esiampl, yn frwd dros wasanaeth cwsmeriaid, ac yn aelod brwdfrydig o dîm.

Byddwch yn dod yn arbenigwr ym maes coffi a'n cynnig bwyd a diod, a byddwch yn gweithio mewn amgylchedd lle byddwch yn ymgysylltu â phobl wahanol a chwsmeriaid rheolaidd bob dydd, gan ei wneud yn weithle bywiog a hwyl.

# Yn y rôl hon, byddwch yn gwneud y canlynol:

- Teilwra eich gwasanaeth i bob cwsmer, rhagweld anghenion cwsmeriaid, a meithrin perthynas er mwyn sicrhau bod pob cwsmer yn teimlo bod eu hanghenion yn cael eu diwallu.
- Sicrhau bod pob diod yn cyrraedd cwsmeriaid mewn modd amserol, gan gynnwys mynd â diodydd i'r byrddau – ac ar yr un pryd, bod yn ymwybodol o anghenion cwsmeriaid bob amser ac yn gallu ymateb iddynt yn briodol.
- Darparu diodydd a chynhyrchion/eitemau bwyd o ansawdd, yn gyson i bob cwsmer gan gydymffurfio â'r holl safonau ryseitiau a chyflwyniad
- Sicrhau bod lefelau stoc paratoi bwyd yn cael eu cynnal.
- Bod yn effro, yn gadarnhaol a darparu gwasanaeth amserol i gwsmeriaid, lle mae gwybodaeth ac arbenigedd ar fwyd, diodydd ac alergenau yn golygu bod cwsmeriaid bob amser yn cael y lefel orau o wasanaeth.
- Rhoi cyngor, arweiniad ac argymhellion ar gynnyrch a dewis bwydlenni i gwsmeriaid er mwyn sicrhau profiad cadarnhaol a busnes cyson.
- Bod yn hyderus ac yn gydweithredol gydag agwedd gadarnhaol, gan ymdrechu i wella'n barhaus a gweithio er budd pennaf y tîm bob amser.
- Bod yn rhagweithiol a sicrhau amgylchedd gwaith glân, hylan o safon uchel bob amser.
- Arwain drwy esiampl, parchu eraill a bod yn ymrwymedig i ddarparu'r coffi a'r diodydd gorau er mwyn sicrhau bod ein cwsmeriaid eisiau dychwelyd am ragor.
- Ymdrin â chwynion gan gwsmeriaid yn briodol, gyda'r nod o ddatrys problemau ar y pwynt cyswllt cyntaf.

# Dyletswyddau a Chyfrifoldebau Cyffredinol:

- Bod yn gyfrifol am eich diogelwch eich hun a diogelwch staff eraill ac unrhyw aelod o'r cyhoedd y gallai eich gweithredoedd a'ch anweithredoedd yn y gwaith effeithio arnynt
- Cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau hyfforddi a datblygu i gynnal eich datblygiad eich hun neu i wella cymhwysedd o fewn rôl y swydd.
- Cynnal ac integreiddio ein pwrpas a'n gwerthoedd ym mhopeth a wnewch.
- Sicrhau bod gweithgareddau'n cael eu cwblhau yn unol ag ymrwymiad Awen i gydraddoldeb ac amrywiaeth, ac yn unol ag arferion gorau a deddfwriaeth.
- Nid yw hwn yn ddatganiad cyflawn o'r holl ddyletswyddau a chyfrifoldebau sy'n rhan o'r swydd hon, ac efallai y bydd angen eu hamrywio i ddiwallu anghenion newidiol y busnes.

# Manyleb y Person

## Y Person (NODIR Y MEINI PRAWF HANFODOL FEL **(H)**:

- Yn arwain drwy esiampl, yn drwsiadus, yn broffesiynol ac yn meddu ar agwedd gadarnhaol (H)
- Yn gyfeillgar, yn hawdd mynd ato, yn mwynhau gweithio fel rhan o dîm a rhannu arferion da (H)
- Yn croesawu newid gydag agwedd gadarnhaol (H)
- Yn frwd am ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol gyda diddordeb mawr mewn bwyd (H)
- Yn hyblyg i ateb y galw (H)
- Yn mwynhau meithrin cydberthynas bersonol â chwsmeriaid (H)
- Ymrwymiad i ddatblygiad personol
- Yn dangos agwedd ragweithiol a chadarnhaol wrth ymgorffori gwerthoedd Awen drwyddi draw
- Yn cyfrannu syniadau ac atebion, ac yn gallu eu cymhwyso er mwyn gwella

# Cymwysterau, Sgiliau, Galluoedd a Phrofiad:
## (NODIR Y MEINI PRAWF HANFODOL FEL **(H)**:

- Sgiliau trefnu rhagorol (H)
- Y gallu i feddwl yn gyflym a gwneud penderfyniadau effeithiol wrth weithio mewn amgylchedd prysur (H)
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol gan gynnwys gwrando gweithredol (H)
- Sgiliau rheoli amser rhagorol er mwn sicrhau bod bwyd yn cael ei weini'n brydlon (H)
- Y gallu i weithio heb oruchwyliaeth mewn amgylchedd prysur, gan ddangos agwedd hyderus a llawn cymhelliant (H)
- Gwybodaeth am arferion gweithio diogel a hylendid bwyd
- Cymhwyster Hylendid Bwyd Sylfaenol
- NVQ mewn Gwasanaeth Cwsmeriaid neu'n gallu dangos profiad tebyg
- Gwybodaeth a phrofiad ymarferol o gydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol ac arferion gorau'r diwydiant
- Yn gallu siarad Cymraeg
- Yn farista hyddysg neu gyda phrofiad arlwyo blaenorol

awen